## Tasg 3

# Ymson

**Ymson** yw ffurf y darn ar y sgrin.

**Beth yw ymson?**

• Mae ymson yn sôn am brofiad personol. Mae'n defnyddio person cyntaf y ferf **rydw i, roeddwn i** ac ati ac mae'n sôn yn bennaf am **fi** a **ni.**
• Mae ymson wedi ei seilio yn y presennol ond mae'n gallu cyfeirio at y gorffennol a'r dyfodol hefyd, wrth gwrs.
• Mae llawer o deimlad ac emosiwn mewn ymson.
• Mae rhai ymsonau'n creu awyrgylch.
• Mae ymson yn defnyddio iaith bob dydd – tafodiaith hefyd weithiau.
• Yn aml, mae llawer o gwestiynau ac ebychiadau mewn ymson.

Chwiliwch am enghreifftiau o'r uchod yn y darn a llenwch y grid ar y dudalen nesaf.

| | |
|---|---|
| • defnyddio’r person cyntaf (**fi** / **ni**) | |
| • wedi ei seilio yn y presennol (ond gyda chyfeiriadau at y gorffennol a’r dyfodol hefyd) | |
| • teimlad ac emosiwn | |
| • awyrgylch | |
| • iaith bob dydd | |
| • cwestiynau ac ebychiadau | |

Ewch i’r dudalen nesaf.

Ysgrifennwch ymson ar y testun **Y Daith**.

Defnyddiwch y pwyntiau bwled sydd wedi eu rhestru ar y tudalennau blaenorol a chynlluniwch eich gwaith yn ofalus.

Gallech chi feddwl am y pwyntiau hyn os ydych chi eisiau:

- Rydych chi ar daith – o ble i ble?
- Pam rydych chi ar y daith?
- Gyda phwy?
- Beth sy'n digwydd i chi?
- Ydych chi'n cofio am rywbeth yn y gorffennol neu ydych chi'n meddwl am rywbeth yn y dyfodol?
- Disgrifiadau / awyrgylch
- Sut ydych chi'n teimlo?

Cofiwch ddefnyddio cwestiynau ac ebychiadau